



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau


Transforming Education, Transforming Lives

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives


www.uwtsd.ac.uk

- ECAD6051
- Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Arwain y Dysgu:
 - Beth, sut a pham ydw i'n addysgu?
 - Ieithoedd, Llafar a Chyfathrebu
 - Sesiwn 1
 - Medi 2025

Trosolwg o'r gyfres o ddarlithoedd



Ceisiwch gaslgu 'banc' o syniadau cyn gynted â phosib!




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Nod y ddarlith



Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar rhan.

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

1	2	3	4
Mae <u>ieithoedd</u> yn ein cysylltu â'n gilydd. 	Mae deall <u>ieithoedd</u> yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. 	Mae mynegi ein hunain drwy <u>ieithoedd</u> yn allweddol i gyfathrebu 	Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd. 

Datblygu sgilau LLAFAR



Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hynny dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwranddo, *siarad*, darllen ac ysgrifennu.

Goyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru.

Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau>

Mae **datblygiad iaith** plant yn broses ryfeddol. Ystyrier, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng babi newydd-
anedig a phlentyn tair blwydd oed. Dros y tair blynedd, bydd y plentyn bach wedi dysgu defnyddio'i iaith i ddibenion
soffestigedig iawn: disgrifio, sylwebu, cwestiynu, mynnu a gorchymyn, a holi. Bydd y plentyn tair oed,
at ei gilydd, yn defnyddio rhagenwau (fi, nhw, ti..) ac arddodiaid (dan, wrth, ...), yn siarad am
y gorffennol ac yn cynnig syniadau. Yn wir, bydd yn defnyddio iaith weddol ddealladwy,
ran amlaf, yn enwedig gyda phobl y mae'n eu hadnabod ac yn teimlo'n gysurus gyda nhw. Bydd y plentyn teirblwydd hefyd yn
defnyddio iaith i resymu –
er enghraifft, i benderfynu beth ddylid ei wneud pan fyddwn wedi blino, yn gysglyd, eisiau bwyd ac yn y blaen ...

(Siencyn a Richards, 2010, t.155)





Camau Cynnydd: Ieithoedd, llafar a chyfathrebu



Cynnydd mewn dysgu yw sut mae dysgwr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth dros amser. Mae hyn yn golygu cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth, dyfnhau eu dealltwriaeth, a mireinio eu sgiliau, i gyd wrth ddod yn fwy annibynnol a chymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd newydd.



Egwyddorion Cynnydd



Fframwaith Llythrennedd - Llafaredd

Llythrennedd – Llafaredd Y Cyfnod Sylfaen		Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Elfennau	Agweddau	Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	• siarad am bethau o’u profiad a rhannu gwybodaeth • dechrau rhoi geiriau mewn trefn, e.e. <i>tedi melyn, mynd i’r parc</i> • mynegi hoff bethau a chas bethau • siarad yn glywadwy • gwneud rhai cyfraniadau perthnasol wrth chwarae rôl	• trafod pynciau cyfarwydd • siarad am bethau y mae wedi’u llunio neu wedi’u gwneud, gan esbonio’r broses, e.e. <i>trip i’r traeth ar y bws neu mewn trên</i> • ymestyn syniadau neu disgrifiadau drwy gynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol, e.e. <i>’Rydwi i’n peintio llun o mam yn gwisgo het’</i> • siarad yn glir, gan gyfleu gwybodaeth tu hwnt i’w grŵp cyfeillion, e.e. <i>plant eraill</i> • chwarae rôl, e.e. <i>yn y siop</i>	• mynegi barn a safbwynt, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau, e.e. <i>oherwydd . . . , achos . . .</i> • ymestyn eu syniadau neu eu disgrifiadau drwy gynnwys manylion perthnasol, a threfnu’r hyn y maent yn eu dweud • siarad yn eglur â chynulleidfaoedd cyfarwydd, e.e. <i>athrawon</i> • chwarae rôl, gan ddefnyddio iaith sy’n briodol i’r rôl ac i’r sefyllfa
	Gwrando	• dangos eu bod wedi gwrando ar bobl eraill, e.e. <i>tynnu llun</i> • mwynhau canu ac adrodd hwiangerddi a rhigymau Cymraeg ar eu cof gan ymuno gydag ymadroddion cyfarwydd, e.e. <i>’Mae gen i dipyn o dŷ bach twt’</i> • gofyn cwestiynau am dopig cyfarwydd	• gwrando ar bobl eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. <i>cyflawni cyfarwyddiadau</i> • ymuno mewn ystod gynyddol o rigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof • ailadrodd storïau neu wybodaeth • dechrau holi ac ateb cwestiynau gan ddechrau defnyddio ffurfiau cywir, e.e. <i>Oes? Oes/Nac oes</i>	• gwrando ar bobl eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen • ail-ddweud storïau neu wybodaeth, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir • gofyn cwestiynau perthnasol i gael gwybodaeth benodol a dangos dealltwriaeth • ateb cwestiynau yn gywir gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. <i>Ydy? Ydy/Nac ydy</i>
	Cydweithio a thrafod	• cyfnewid syniadau mewn trafodaethau unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. <i>gyda ffrindiau</i> • cydweithio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau • dechrau dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>’dau gi bach’</i>.	• o’u hysgogi, cyfrannu at sgysia, gan gymryd eu tro ac ymateb i eraill • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maen nhw’n ei wneud • dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i>.	• cyfrannu at drafodaeth, cymryd tro i siarad a pharhau i ganolbwyntio ar y topig • cydweithio i orffen tasg • dechrau defnyddio ambell dreigladaidd fydd wedi eu hymarfer ar lafar, e.e. <i>i Gaerdydd, fy mag</i>.

Llythrennedd – Llafaredd Cyfnod Allweddol 2		Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	- esbonio gwybodaeth a syniadau yn eglur â geirfa briodol - trefnu llafaredd fel bod cynulleidfaoedd yn gallu dilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. <i>defnyddio geiriau allweddol, gosod disgrifiadau mewn trefn eglur</i> - siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant ar brydiau i helpu'r gwrandaŵr a dechrau cynnwys ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir - chwarae rôl benodol am gyfnod o amser drwy ymateb a holi cwestiynau	- defnyddio iaith ac adnoddau oddi ar sgrin wrth esbonio gwybodaeth a syniadau - addasu eu siarad ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, e.e. <i>rhoi gwybodaeth gefndir pan na fydd y gwrandaŵr yn gyfarwydd â'r topig, gofyn cwestiynau i wirio bod y gwrandaŵr yn deall</i> - gwahaniaethu rhwng sgyrsiau byr ymhlith ffrindiau a siarad yn fwy estynedig â grŵp ehangach, gan addasu eu llefaru mewn modd priodol - datblygu'r defnydd o idiomau a phriod-ddulliau mewn sgwrs - chwarae rôl i ystyried materion neu senarios sy'n gysylltiedig â themâu	- ystyried ffyrdd o argyhoeddi wrth esbonio gwybodaeth a syniadau, e.e. <i>defnyddio geirfa, ystumiau, cynorthwyon gweledol</i> - siarad yn eglur, gan ddefnyddio tôn ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. <i>mewn gwasanaeth, mewn digwyddiad i'r rhienilgofalwyr</i> - cynnwys idiomau, priod-ddulliau, cymariaethau a diarhebiau lle bo'n berthnasol mewn sgwrs - ymgyrdd â rôl, e.e. <i>cymeriad o sefyllfa hanesyddol, rhan ddychmygol mewn proses wyddonol</i>	- mynegi materion a syniadau yn eglur, gan ddefnyddio geirfa a chystrawennau gramategol mewn modd priodol, e.e. <i>defnyddio geirfa arbenigol neu enghreifftiau i ddarlunio ystyr</i> - amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais i gadw diddordeb y gwrandaŵr wrth gyflwyno syniadau - cynnwys ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir - dechrau gwahaniaethu rhwng iaith safonol a thafodiaith - dechrau datblygu gwybodaeth o eiriau tafodieithol, e.e. <i>adnabod geiriau delgogleddol, ac adnabod a defnyddio tafodiaith lleol</i> - cynnal gweithgaredd chwarae rôl sy'n datblygu sefyllfaoedd, cymeriadau a gweithredoedd
	Gwrando	- gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau â gwybodaeth flaenorol neu'r hyn y mae wedi'i ddysgu - gwirio dealltwriaeth drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol	- gwrando ar farn a dewisiadau pobl eraill, gan ofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a'r safbwynt - defnyddio technegau, e.e. <i>cymryd nodiadau, dysgu ar y cof, wrth wrando ar wybodaeth a safbwyntiau, gan fynegi dealltwriaeth o rai pwyntiau arwyddocaol</i>	- gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau - ar ôl gwrando, paratoui ymateb sy'n rhoi barn ar yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud	- gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a rhesymau dros safbwyntiau - holi cwestiynau a gwneud sylwadau i ymateb i'r hyn sydd wedi'i ddweud
	Cydweithio a thrafod	- cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth a helpu pawb i gyfrannu - siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg - defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir ar adegau, e.e. <i>ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle.</i>	- cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan chwarae'r rolau sydd wedi'u dyrannu iddynt, e.e. <i>cadeirydd, ysgrifennydd</i> - helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. <i>ystyried rhesymau, gofyn cwestiynau</i> - defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle.</i>	- cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. <i>parhau i ganolbwyntio, helpu eraill</i> - dilyn pwyntiau mewn trafodaethau, gan ddangos cytundeb neu anghytundeb - treiglo'n gywir fel rheol, yn arbennig ar ôl y mwyafrif o arddodiaid a rhagenwau.	- cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth i sicrhau'r meini prawf y cytunwyd arnynt - datblygu ac adeiladu ar syniadau pobl eraill, e.e. <i>drwy ofyn cwestiynau i ystyried ymhellach, gan gynnig rhagor o syniadau</i> - treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad ydy pob llythren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell.</i>

Amser i feddwl

- Faint o blant yr ysgol / dosbarth sy'n dod o gartrefi Cymraeg?
- Faint o blant, felly, sy'n clywed y Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol?
- Pwy, felly, sydd â'r cyfrifoldeb o addysgu'r Gymraeg iddyn nhw?
- Pwy yw'r model llafar cyntaf a glywant?



Mae rhieni yn bwysig iawn yn natblygiad iaith eu plant ac i'r broses o gaffael iaith yn y cyfnod cynnar. Rhieni – ac oedolion eraill allweddol, wrth gwrs – **sy'n canu i'w plant, yn chwarae gemau bys a bawd, sy'n gogleais eu plant, sy'n rhoi cwtsh iddyn nhw ac yn darllen iddyn nhw.** Bydd rhieni, oedolion eraill, a hyd yn oed plant hyn, yn siarad gyda babis mewn ffordd arbennig. Cyfeirir at y math hon o ieithwedd neu gywair ieithyddol fel mameg (motherese), gofaleg (caretakerspeech) neu, yn syml, iaith oedolion at blant (adult speech to children). Clywir y math hyn o siarad elfennau penodol megis: ailadrodd, aralleirio, goslefu pendant, enwi cyson, defnyddio ystumiau corfforol ac ystuniau wnyeb. Gwelir hyn yn cael ei adlewyrchu'n aml yn niwylliant rhigymau a hwiangerddi plant.


(Siencyn a Richards, 2010, t.157)

Llafar



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partnersiaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Llafar yng Nghymru

Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb ac mae'n un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Yr uchelgais yw bod pawb sy'n dysgu mewn ysgol neu leoliad yng Nghymru yn cael eu cefnogi i fwynhau **defnyddio'r Gymraeg**, i wneud **cynnydd parhaus** wrth ddysgu Cymraeg ac i gael yr **hyder** a'r sgiliau iaith fel y gallan nhw ddewis defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

(Cwricwlwm i Gymru 2020)



Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

Mae llawer o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda i gefnogi datblygu lleferydd a chyfathrebu dysgwyr yn llwyddiannus.

Mae lleoliadau ac ysgolion yn aml yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd. Mae medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn cael eu datblygu orau yn aml yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n mabwysiadu ymagwedd thematig integredig neu ymagwedd a ystyriwyd yn ofalus. Wrth baratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.



Tudalen 13

Gwrando a siarad

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel **cyfranogi yn yr Urdd**, i addysgu dysgwyr sut i **wrando a siarad** yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.




Tudalen 15



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Ydy hi'n bwysig bod plant yn cael y cyfle i siarad?



Direct teaching of essential talk skills and understanding is straightforward and should be undertaken in school classrooms.

(Lyn Dawes a Claire Sama, TALK BOX: 1)




Eich defnydd chi o'r iaith Gymraeg.

Pa mor hyderus ydych chi yn defnyddio'r Gymraeg ar lawr y dosbarth?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Partnership Dyddio Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

... dylid rhoi ystyriaeth i'r math o **ddarpariaeth iaith** yn ogystal â'r ystod o brofiadau ieithyddol a diwylliannol sy'n cael eu cynnig i'r dysgwyr.

Yn y cyfnodau cynnar, mae dysgu darllen yn **ddibynnol ar yr iaith lafar** sydd gan ddysgwyr. Felly mae datblygu sgiliau gwranddo a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.

Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau.



"Being able to listen attentively and speak lucidly and understandably, or to use non-verbal communication effectively, are crucial attributes in learning and life more generally. Developing oracy - the capacity to develop and express ideas through speech - is of central importance to both thinking and learning."

Donaldson (2015)

"Spoken language skills need to be taught, just as pupils are taught the skills of literacy, mathematics, science, and so on. Likewise, they need to be provided with knowledge about spoken language, so that their learning and use of those skills is underpinned by an informed awareness of how spoken language works. Teaching oracy should not be viewed simply as a pedagogical concern: rather, it should also be seen as a curricular concern."

Mercer & Mannion (2018)

Mae'r ffordd rydych yn **siarad a gwrando** yn gwenud gwahaniaeth mawr!

Gwrando: RHAI D I CHI WRANDO. Os byddwch chi'n cymryd yr awenau gan y plentyn drwy godi ffocws sylw y plentyn, yna mae'r plentyn yn datblygu geirfa yn gyflymach na phe baech chi'n ceisio symud sylw'r plentyn at rywbeth gwahanol.


Ail-ddweud: ailadroddwch yn ôl yn y ffurf gywir ond peidiwch â chywiro lleferydd y plentyn.

Ehangu: rhoi sylwadau ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud/yn ei ddweud gydag ymateb estynedig.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

... ond mae'r ffordd rydych **CHI** yn **siarad a gwrando** yn gallu cael mwy o effaith!



[Meddyliwch!](#)

- Mae'n dechrau gyda bachgen yn mynd ar fws ysgol.
- Ar ôl gwyllo'r fideo, trafodwch gyda'ch grŵp y negeseuon a gymerwyd gennych o'r fideo.
- Penderfynwch ar 5 neges allweddol y byddech chi'n eu rhoi i athrawon eraill am y ffordd maen nhw'n defnyddio iaith eiriol a di-eiriau, a'r ffordd maen nhw'n ymddwyn tuag at ddisgyblion os ydyn nhw am annog plant sy'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives


www.uwtsd.ac.uk

Dewch i feddwl ...




- Nodwch cymaint o wahanol ffyrdd i ddatblygu llafaredd yn ddyddiol o fewn y dosbarth.
- Beth sydd angen sicrhau wrth ddatblygu llafaredd yn y dosbarth?

Syniadau



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk


Hwiangerddi

Bwrw Glaw (#Heno, Heno, Hen Blant Bach)

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Gwisgo het a welis, bwrw glaw
Gwisgo het a welis, bwrw glaw.

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Neidio yn y pyllau, bwrw glaw
Neidio yn y pyllau, bwrw glaw.

Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Bwrw, bwrw, bwrw glaw
Sblasio yn y pyllau, bwrw glaw
Sblasio yn y pyllau, bwrw glaw.



Caneuon

[Aderyn Melyn](#)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

Yn y bore ...



Neithiwr, es i





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

Pa un sydd orau? Pam?







Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives


www.uwtsd.ac.uk

Meddyliwch am
frawddeg sy'n cynnwys:

coch

Meddyliwch am
frawddeg sy'n cynnwys:

fel




Meddyliwch am frawddeg sy'n
cynnwys:

yn wyllt gacwn

Meddyliwch am
frawddeg sy'n cynnwys:

gwella





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

Wrth feddwl am Cyfnod Allweddol 2, pa batrymau iaith gellir drilio?

Ydy hi'n ddydd
Gwener heddiw?

Pa ddiwrnod ydy
hi heddiw?

Pa ddiwrnod
oedd hi ddoe?

Pa ddiwrnod
fydd hi yfory?



Beth ydy'r
dyddiad heddiw?

Beth fydd y
dyddiad mewn
dau ddiwrnod?


Beth oedd y
dyddiad ddoe?

Pa fis yw hi
nawr?

<u>1af - cun~~ta~~f</u>	<u>2il- ail</u>	<u>3ydd - trudydd</u>
<u>4ydd - pedwerudd</u>	<u>5ed - pumed</u>	<u>6ed - chweched</u>
<u>7fed - seithfed</u>	<u>8fed - wythfed</u>	<u>9fed - nawfed</u>
<u>10fed - deafed</u>	<u>11eg - unfed ar dde~~a~~</u>	<u>12fed - deuddeafed</u>
<u>13eg - trudydd ar dde~~a~~</u>	<u>14eg - pedwerudd ar dde~~a~~</u>	<u>15fed - pumtheafed</u>
<u>16eg - unfed ar bymthe~~a~~</u>	<u>17eg - ail ar bymthe~~a~~</u>	<u>18fed - deunawfed</u>
<u>19eg - pedwerudd ar bymthe~~a~~</u>	<u>20fed - ugeinfed</u>	<u>21ain - unfed ar hugain</u>
<u>22ain - ail ar hugain</u>	<u>23ain trudydd ar hugain</u>	<u>24ain - pedwerudd ar hugain</u>
<u>25ain - pumed ar hugain</u>	<u>26ain - chweched ar hugain</u>	<u>27ain seithfed ar hugain</u>
<u>28ain - wythfed ar hugain</u>	<u>29ain - nawfed ar hugain</u>	<u>30ain - deafed ar hugain</u>
<u>31ain - unfed ar dde~~a~~ ar hugain</u>		



Yr ateb yw ...




... ond, beth oedd y cwestiwn?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Yr ateb yw ...



... ond, beth oedd y cwestiwn?

Beth sy'n gyffredin?




Beth sy'n wahanol?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Beth sy'n gyffredin?




Beth sy'n wahanol?

Pa un sy'n eithriad?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Pa un sy'n eithriad?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Beth sy'n gyffredin?



Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith

Pobble 356



- Pwy yw'r dyn yn y parc?
- Beth sydd wedi digwydd ddeng munud ynghynt?
- Pam bod y dyn y parc?
- Pam bod e'n dal blodyn?
- Beth sy'n mynd i ddigwydd yn y ddeng munud nesaf?
- A fydd rhywun yn gweld y dyn ar y fainc?
- Pa liw ydy'r Gaeaf?
- Pa liw ydy'r Haf?
- Oes mwy o hapusrwydd neu dristwch yn y Byd?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives





Meddylwch am y
gweithgareddau llafar
posib tra'n gwyllo'r
clip fideo.



Y Gadair Goch...



Pethau parod!!




[BBC Bitesize](https://www.bbc.com/bitesize)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partnriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership


Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Y Blwch Llythrennedd...



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Sut i ddefnyddio'r cardiau drilio?

Ysgrifennwch frawddeg yn
y presennol.




Presennol/Dyfodol	Gorffennol	Amherffoith
Rydw i'n...	Rydwi i wedi...	Roeddwn i'n (orfer)...
Rwyt ti'n...	Rwyti ti wedi...	Roeddet ti'n...
Mae e/hi'n...	Mae e/hi wedi...	Roedd e/hi...
Rydyn ni'n...	Rydyn ni wedi...	Roedden ni'n...
Rydych chi'n...	Rydych chi wedi...	Roeddech chi'n...
Moen nhw...	Moen nhw wedi...	Roedden nhw'n...



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales




Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Pwysigrwydd bod tu allan ...

Cred rhai (Bilton, 2002; White, 2009) bod iaith plant yn elwa o chwarae tu allan. Mae hi fel petai'r awyr agored yn caniatáu i blant ymarfer eu llafaredd, i arbrofi gydag uchder ac ansawdd eu lleisiau. Gwelir hefyd blant swil yn dod yn fwy hyderus a r lafar a phlant bywiog ac uchel eu lleisiau yn ymdawelu.

(Siencyn a Richards, 2010, t.164)



Awgrymiadau:

- Gofynnwch gwestiynau “pam” a “sut”
- Defnyddiwch ddatganiadau a chwestiynau agored ac adfyfyriol; gofynnwch am stori, am farn, am sylwebaeth;
- Cysylltwch â bywydau plant, eu diddordebau, gweithgareddau blaenorol
- Sefydlwch bartneriaeth sgwrsiol
- Holwch gwestiynau lefel uchel: “sut mae hwnna’n gweithio tybed?”, “beth fyddai’n digwydd petai?”
- Meddyliwch yn uchel ac ychwanegwch dagiau megis “ondyfe”, “chi’n gwybod”, “wsti”
- Defnyddiwch weithgareddau agored gyda deunyddiau go iawn-
defnyddio ffonau go iawn, bwydydd go iawn ... nid afalau plastig a ffonau tegan.
- Beth

am recordio eich hyn yn sgwrsio gyda phlant? Wrth wyllo a gwrando arnoch chi eich hunan, fe ddowch i ddeall p
wysigrwydd adfyfyrio ar eich sgiliau, beirniadau a herio eich hunan i fod yn fwy effeithiol

(Siencyn a Richards, 2010, t.164)




Chwarae rôl ...



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

Munud i feddwl ...







Faint o amser, ar gyfartaledd, mae disgybl yn ei dderbyn gan athro wrth feddwl am ateb i gwestiwn?

Amser aros athrawon Prydain yw **0.9 eiliad ar gyfartaledd**. Os nad ydym wedi cael ateb erbyn hynny, rydym yn tueddu i addasu'r cwestiwn neu ei ateb ein hunain! Os ydym am i ddysgwyr feddwl am gwestiwn, rhaid i ni roi amser i hyn ddigwydd, a datblygu awyrgylch lle y disgwylir i bawb feddwl. Os yw'r amser aros yn cynyddu i ddim ond tri eiliad, ceir cynnydd enfawr yn: nifer y dysgwyr sy'n ymateb; dyfnder yr atebion; ac yn ystod yr iaith a ddefnyddir yn eu hatebion. Efallai ei bod yn fwy defnyddiol i alw hyn yn *amser meddwl* yn hytrach nag *amser aros*, oherwydd mae'n rhaid i ni hyrwyddo meddwl gweithredol yn hytrach nag aros goddefol.

Llywodraeth Cymru (2010) Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/api/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf>

Llyfrau a gyfeiriwyd atynt yn y ddarlith hon:



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partnriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg,
Trawsnewid Bywydau

Transforming Education,
Transforming Lives

www.uwtsd.ac.uk

